**Llythyr 20 : Corff Llywodraethwyr Ysgol Gwenffrwd yn rhannu y wybodaeth ddiweddaraf gan Ll.C. am Orchudd Wynebau. Gofynir i pawb wisgo rhain wrth nôl a danfon eich plant i Ysgol Gwenffrwd os.g.y.dda. Diolch**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# COVID-19: Llythyr i bob ysgol a lleoliad

23 Tachwedd 2020

Annwyl Bennaeth

**Defnyddio gorchuddion wyneb yn yr ysgol: Diweddariad i ganllawiau Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r canllawiau gweithredol ar ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau.

Mae'r canllawiau bellach yn nodi y dylid gwisgo gorchuddion wyneb:

- ym mhob ardal y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a cholegau
- ar gludiant penodedig i'r ysgol a'r coleg i ddysgwyr ym mlwyddyn 7 a hŷn
- gan ymwelwyr i bob ysgol a choleg, gan gynnwys rhieni a gofalwyr sy'n danfon ac yn casglu plant

Mae'r drefn hyn yn dilyn cyhoeddi tystiolaeth SAGE ac adroddiad diweddar gan TAG.

Deallwn y bydd angen digon o amser arnoch i gyfleu'r newidiadau hyn i staff, rhieni a disgyblion; fodd bynnag, disgwylir y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl dros yr wythnosau nesaf.

Ynghyd â golchi dwylo a chadw pellter cymdeithasol, bydd defnyddio gorchuddion wyneb yn chwarae ei ran i gadw disgyblion, staff a rhieni mor ddiogel â phosibl. Amgaeir templed o lythyr cynradd ac uwchradd at rieni yn disgrifio'r canllawiau diwygiedig ac yn pwysleisio'r pwyntiau hyn. Mae croeso i chi ei ddefnyddio a'i addasu at eich defnydd eich hun.

Am fwy o wybodaeth:

- Mae asedau cyfryngau cymdeithasol hefyd ar gael i chi eu rhannu sy'n esbonio ymbellhau cymdeithasol, a sut i wisgo gorchuddion wyneb https://www.youtube.com/playlist?list=PLTZvaU9CIF5u27UHyACS6AqdRTPlsJ7XO

- Mae gwybodaeth cyfredol ar gael ar sianeli cyfryngau cymdeithasol adran addysg Llywodraeth Cymru https://twitter.com/LlC_Addysg https://www.facebook.com/addysgcymru

- Neu drwy gofrestru ar gyfer cylchlythyr Dysg https://llyw.cymru/tanysgrifiwch-ar-gyfer-newyddion-ynghylch-addysg-hyfforddiant-dysg-ol-11

- Mae'r canllawiau gweithredol COVID–19 llawn ar gyfer ysgolion a lleoliadau i'w gweld yma https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-fersiwn-4-html

- Ar gyfer dysgwyr neu weithlu sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu hysbysiad eithrio personol. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i gael nodyn eithrio personol, gallai helpu pobl sydd wedi'u heithrio rhag gwisgo gorchuddion wyneb i deimlo'n hyderus pan fyddant yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Gellir dod o hyd i ddolen i nodyn templed i'w lawrlwytho yn https://eithrio.trc.cymru/